**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

1 Awst 2011

Annwyl gyfaill,

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i leihau'r risg o gael strôc.

I'w gynorthwyo gyda'i ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu clywed eich barn am unrhyw un o'r pwyntiau a ganlyn, neu bob un ohonynt:

- beth yw'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau i leihau'r risg o gael strôc a pha mor effeithiol yw polisïau Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael ag unrhyw fannau gwan yn y gwasanaethau hyn?
- beth yw eich barn am sut y caiff Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru i Leihau'r Risg o Gael Strôc ei weithredu ac a yw'r camau a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch y risgiau o gael strôc wedi llwyddo?
- beth yw'r problemau penodol o ran cyflawni'r camau i leihau'r risg o gael strôc?
- pa dystiolaeth sydd ar gael o blaid lansio rhaglen sgrinio ar gyfer ffibriliad atrïaidd yng Nghymru?

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email:HSCCommittee@wales.gov.uk

## Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, cyflwynwch ddisgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg neu Saesneg a bydd yn ystyried ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau i wrando ar dystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni at HSCCommittee@cymru.gov.uk. Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai'r dystiolaeth ddod i law erbyn **Dydd Gwener 16 Medi 2011.** Efallai na fydd yn bosibl ystyried yr ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau gan y rheini sydd ar y rhestr ddosbarthu a atodwyd. Buasent yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt ar y rhestr hon, ond a hoffai gyfrannu i'r ymchwiliad, o bosibl. Rhoddwyd copi o'r llythyr hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol gyda gwahoddiad agored i bobl gyflwyno eu sylwadau.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu awgrymiadau ynghylch ei ddulliau o weithio a phynciau posibl ar gyfer ymchwiliadau yn y dyfodol ar sail barhaus.

## Datgelu gwybodaeth

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i ymchwiliad/bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email:HSCCommittee@wales.gov.uk

gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir

Mark Drakeford.

**Mark Drakeford AC**
**Cadeirydd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email:HSCCommittee@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

**Ymgyngoreion**

**Byrddau Iechyd**
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys

**Ymddiriedolaethau Iechyd**
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Darparwyr Gofal Iechyd**
Grŵp Diwydiant Cymru o Gymdeithas Brydeinig y Diwydiant Fferyllol
Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol Cymru
Cymdeithas Ddeieteg Prydain
Cymdeithas Feddygol Prydain
Cymdeithas Awdioleg Prydain
Cymdeithas Anabledd ac Iechyd y Geg Prydain
Canolfan Byw'n Annibynnol
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
Y Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol (NPA)
Cymdeithas y Fferyllwyr Gofal Sylfaenol
Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Coleg Brenhinol y Nyrsys
Optometreg Cymru
Cymdeithas Ysbytai a Gwasanaethau Iechyd Cymru
Conffederasiwn GIG Cymru

**Cynghorau Iechyd Cymuned**
Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg
Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr
Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed
Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a’r Fro
Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf
Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda
Cyngor Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn

**Cynghorau**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Caerdydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Asiantaethau Swyddogol**
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW)
Comisiynydd Plant Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Her Iechyd Cymru
Comisiwn Iechyd Cymru
Y Ganolfan Ymchwil i Gyfathrebu ar Iechyd
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Atebion Iechyd Cymru
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd
Y Sefydliad Iechyd Gwledig
Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol
Yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddfa Archwilio Cymru
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Cynghorau Gweithredu Gwirfoddol**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
Interlink
Mantell Gwynedd

Medrwn Môn
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd PortTalbot
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
Cynghrair Gwirfoddol Tor-faen
Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

**Y Sector Gwirfoddol**
Age Cymru
Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
Cymdeithas Alzheimers'
Gofal Arthritis yng Nghymru
ASH Cymru
Barnardos Cymru
Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru
Cymdeithas Orthopedig Prydain
Cynhalwyr Cymru
Canolfan Cymorth a Chyngor ar gyfer Pobl Anabl
Changing Faces
Plant yng Nghymru
Chwarae Teg
Cyngor ar Bopeth Cymru
Cymunedau yn Gyntaf
CONNECT Cyngor Hawliau Anabledd
Croesffyrdd – Gofalu am Ofalwyr
Gofal Galar Cruse Cymru
Cymdeithas Byddar Cymru
Diabetes UK
Prosiect Cyngor ynghylch Anabledd
Y Sefydliad Byw i Bobl Anabl (Disabled Living Foundation)
Anabledd Cymru
Gofal Cymru
Hafal
Sefydliad Joseph Rowntree
Anabledd Dysgu Cymru
Cymorth Cancr Macmillan
Mencap Cymru
Y Sefydliad Iechyd Meddwl
Iechyd Meddwl Cymru
Merched y Wawr
Mind Cymru
Undeb y Mamau
Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor
Cymdeithas Sglerosis Ymledol Cymru
Mudiad Ysgolion Meithrin
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched
Cynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn

1000 o Fywydau a Mwy
Cymdeithas Clefyd Parkinson
Cymdeithas Cleifion
Platform 51
Y Gymdeithas Arennol
RNIB Cymru
RNID Cymru
Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Scope Cymru
Sense Cymru
SNAP Cymru
Stonewall Cymru
Cymdeithas y Plant
Cyngor Pobl Anabl y DU
Cynghrair Cynhalwyr Cymru
Cyngor Cymru i'r Deillion
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
Pensiynwyr Cymru
Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru
Y Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl

**Sefydliadau Strôc**
Grŵp Strôc Podiatryddion Cymru Gyfan
Y Gynghrair Arhythmia
Cymdeithas Ffibriliad Atrïaidd
Y Gymdeithas Pwysedd Gwaed
Cymdeithas Brydeinig y Ffisigwyr Strôc
Cymdeithas Pwysedd Gwaed Uchel Prydain
Rhwydweithiau'r Galon Cymru
Changing Faces
Grŵp Buddiant Ymchwil Strôc OPAN
Primary Care Cardiovascular Society
Cymdeithas Strôc Cymru
Y Rhwydwaith Ymchwil Strôc
Yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Adsefydlu ar ôl Niwed Niwrolegol (ARNI)
Fforwm Strôc y DU
Wellcome Trust
Cynghrair Nyrsys Strôc Cymru
Sefydliad Strôc y Byd

**Academia**
Y Ganolfan Gwybodeg Iechyd
Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru